## Y PWYLLGOR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES

## ADRODDIAD AR GYLLIDEBAU A BENNWYD GAN AWDURDODAU LLEOL AR GYFER GWASANAETHAU ADDYSG YN YSTOD 2002-03

### Ffynonellau ariannu

Caiff cyllidebau awdurdodau lleol ar gyfer gwasanaethau addysg eu hariannu'n bennaf o adnoddau awdurdodau lleol, sef treth y cyngor, cyfran o'r grant cynnal refeniw ac ardrethi annomestig a ailddosbarthwyd. At hyn, ceir arian trwy grantiau penodol ac arbennig gan y Cynulliad Cenedlaethol; a grantiau gan ELWa - Cyngor Cenedlaethol ar gyfer addysg i oedolion ac ar gyfer darpariaeth addysgol ôl-16 mewn ysgolion. Mae grant ELWa ar gyfer darpariaeth ôl-16 mewn ysgolion yn rhan o arian craidd ysgolion perthnasol ac yn rhan o gyllideb ysgolion lleol yr awdurdod lleol yn ogystal â'r rhan honno o'r gyllideb ysgolion lleol a ddosberthir i roi'r cyllidebau dirprwyedig i ysgolion. Lle y bo'r dadansoddiad hwn yn cyfeirio at ffigurau net o grant penodol neu arbennig mae'r ffigurau net yn cynnwys arian ELWa ar gyfer darpariaeth ôl-16 i ysgolion.

### Crynodeb o'r prif gasgliadau

Y prif gasgliadau yw:

- Mae cyfanswm cyllidebau addysg ar gyfer 2002-03 wedi cynyddu £101 miliwn (6.8%) i £1,590 miliwn - yr ystod ar gyfer awdurdodau unigol yw rhwng 4.1% a 11.2% (tabl 1);

- Mae cyfanswm net cyllidebau ar gyfer gwasanaethau ysgolion (heb gynnwys y gwariant sy'n cael ei ariannu gan grantiau penodol neu arbennig gan y llywodraeth) wedi cynyddu o £1,443 miliwn i £1,543 miliwn, cynnydd o 6.9% - yr ystod ar gyfer awdurdodau unigol yw rhwng 3.3% a 11.8% (tabl 2);

- Mae cyfanswm y cyllidebau presennol ar gyfer gwasanaethau ysgolion (gan gynnwys gwariant sy'n cael ei ariannu gan grantiau penodol y llywodraeth, e.e. GEST a grantiau eraill) wedi cynyddu £89 miliwn i £1,622 miliwn; cynnydd o 5.8%. Mae'r cynnydd yng nghyllidebau gros yr awdurdodau unigol yn amrywio o 2.1% i 9.8% (tabl 2a);

- Os cynhwysir y grant arbennig ychwanegol o £18.7 miliwn ar gyfer costau cyflogau athrawon - y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ei drafod ar 16 Gorffennaf - bydd yr arian yn cynyddu £108 miliwn (7.0%) o gymharu â 2001-02. Yr ystod ar gyfer awdurdodau unigol yw rhwng 3.3% a 11.2%;

- Mae'r swm a gaiff ei neilltuo i ysgolion wedi cynyddu £83 miliwn (7.1%) i £1,250 miliwn sy'n cynrychioli 81% o gyllideb net ysgolion lleol - yr un canran â 2001-02 (tablau 3 a 5). Mae'r cyfraddau dirprwyo unigol yn amrywio rhwng 78% a 84% (tabl 3);

- Rhagwelir y bydd cyfanswm gwariant refeniw net awdurdodau lleol yn cynyddu 7.4% rhwng 2001-02 a 2002-03 o gymharu â 6.9% ar gyfer cyllidebau ysgolion lleol (tabl 4);

- Mae'r AALl'au yng Nghymru yn cadw £601 fesul disgybl i ariannu gwasanaethau ysgolion sy'n cael eu darparu yn ganolog - y prif elfennau yw darpariaeth AAA arbenigol (£162) a chostau teithio i'r ysgol (£136); y gyfran o'r arian sydd ar gyfer y gwasanaethau canolog yw £52 - swm tebyg i'r swm a fu ar gyfer 2001-02 (tabl 6 - ceir amlinelliad o'r categoriau gwariant yn y nodiadau i dabl 6);

- Rhagwelir mai cyfanswm y gwariant fesul disgybl (ac eithrio'r gwariant sy'n cael ei ariannu gan grantiau penodol neu arbennig y llywodraeth) fydd £3,167. Mae hyn yn cymharu â £2,957 fesul disgybl yn 2001-02 - cynnydd o 7.1%. Yr awdurdod sydd wedi neilltuo'r swm isaf fesul disgybl yw Bro Morgannwg gyda £2,851 i bob disgybl; yr uchaf yw Ceredigion gyda £3,757 i bob disgybl. Mae'r gwahaniaeth rhwng y swm isaf a'r swm uchaf fesul disgybl wedi aros yn gyson - £906 yn ystod y ddwy flynedd (tabl 7).

**Statws y Data**

O dan adran 52 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, mae'n ofynnol i gael ffurflenni cyllid ar y gwariant ar addysg. Mae ffurflenni adran 52 a chyfrif refeniw yr awdurdodau wedi eu defnyddio i benderfynu ar gynnydd cyffredinol mewn cyllidebau awdurdodau lleol, cynnydd mewn cyllidebau addysg a'r swm a gaiff ei neilltuo i ysgolion.

Awdurdodau lleol sydd wedi darparu'r data. Mae pob awdurdod wedi cadarnhau eu data ac wedi cael y cyfle i roi sylwadau ar y ffigurau.

Table 1: Education net expenditure, 2001-02 and 2002-03 (a)
Table 2: Net local schools' budgets (LSB), 2001-02 and 2002-03 (a)
Table 2a: Current local schools' budgets (LSB), 2001-02 and 2002-03 (a)
Table 3: Delegated school budgets, 2002-03 (a)
Table 4: Changes to schools' budgets in comparison to overall local authority budgets, 2001-02 and 2002-03
Table 5: Delegated schools budgets, 2001-02 and 2002-03 (a)
Table 6: LEA services *not* delegated to schools - net expenditure per pupil, 2002-03 (a)
Table 7: schools' budgets per pupil, 2002-03

Swyddog Cyswllt

Wayne Williams
Uned Ystadegau Cyllid Llywodraeth Leol
Y Gyfarwyddiaeth Ystadegau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Rhif ffôn (029) 2082 3963
Ebost: stats.finance@wales.gsi.gov.uk